



# Tai Amlfeddiannaeth

Cais am Drwydded Newydd

(o 9 Mawrth 2016)

Defnyddir y ffurflen hon er mwyn gwneud cais am drwydded HMO newydd o dan adran 63, Deddf Tai 2004. Mae Polisi Trwyddedu HMO 2016 y cyngor yn berthnasol i'r cais hwn ac unrhyw drwydded HMO ddilynol.

Os ydych yn gwneud cais i adnewyddu trwydded HMO bresennol, defnyddiwch y ffurflen Cais i Adnewyddu Trwydded.

Rhaid cynnwys ffi gyda'r cais hwn (Gweler nodyn arweiniol 9).

Darllenwch y nodiadau arweiniol ar dudalennau 13 - 15 yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon. Gall ceisiadau anghyflawn neu hwyr arwain at ddychwelyd y ffurflen hon atoch a lleihau cyfnod eich trwydded.

Os oes gennych fwy nag un tŷ amlfeddiannaeth, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob eiddo.

Cwblhewch y ffurflen gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU ac inc du.

Os oes angen mwy o le i ateb unrhyw gwestiwn, defnyddiwch daflenni ychwanegol, gan nodi pa gwestiwn mae eich ateb yn ymwneud ag ef ac atodwch y taflenni i'r ffurflen gais.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'n rhwymedigaeth o dan Deddf Tai 2004. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i gyflawni'n rhwymedigaeth gyfreithiol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

## RHAN 1 Pobl sy'n gysylltiedig â'r eiddo

### 1.1 Cyfeiriad yr HMO i'w drwyddedu

---

---

---

Côd Post:

### 1.2 Manylion yr Ymgeisydd

Teitl: Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall:

Cyfenw:

Enw cyntaf:

Cyfeiriad:

Côd Post:

E-bost:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Rhif ffôn symudol:

**1.3 Ai'r ymgeisydd yw perchennog yr eiddo?**Ie  Nage  Os na, cwblhewch 1.4.**1.4 Manylion perchennog yr eiddo i'w drwyddedu (os nad yr ymgeisydd yw'r perchennog)**Teitl: Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall: \_\_\_\_\_

Cyfenw: \_\_\_\_\_

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Côd Post: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn yn ystod y dydd: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn symudol: \_\_\_\_\_

**1.5 Nodwch pwy fydd deiliad arfaethedig y drwydded.****Os yw'n asiant rheoli neu'n berson arall, nodwch y manylion yn y blychau isod.**Ymgeisydd  Perchennog yr Eiddo  Asiant Rheol  Arall **1.6 Manylion yr asiant rheoli ar gyfer yr eiddo i'w drwyddedu (os yw'n berthnasol)**Teitl: Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall: \_\_\_\_\_

Cyfenw: \_\_\_\_\_

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_

Cwmni a Gynrychiolir (os yw'n berthnasol): \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Côd Post: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn yn ystod y dydd: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn symudol: \_\_\_\_\_

**1.7 Manylion deiliad arfaethedig y drwydded, os nad yw'n perchennog neu'n asiant rheoli.**Teitl: Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall: \_\_\_\_\_

Cyfenw: \_\_\_\_\_

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Côd Post: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn yn ystod y dydd: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn symudol: \_\_\_\_\_

Budd yn yr eiddo: \_\_\_\_\_

Perthynas â'r perchennog: \_\_\_\_\_

Rhesymau pam nad y perchennog neu'r asiant rheoli yw deiliad arfaethedig y drwydded: \_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

**1.8** Manylion unrhyw berson arall sydd wedi cytuno i gael ei rwymo gan amodau'r drwydded (dylech hefyd gyflwyno hysbysiad o'r cais i'r person hwn – gweler y Datganiad ar dudalen 9 a nodyn arweiniol 10).

Teitl: Mr.  Mrs.  Miss  Ms.  Arall: \_\_\_\_\_

Cyfenw: \_\_\_\_\_

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Côd Post: \_\_\_\_\_

E-bost: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn yn ystod y dydd: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn symudol: \_\_\_\_\_

**1.9** Pa amodau mae'r person a enwir yn 1.8 uchod yn cytuno i gael eu rhwymo ganddynt? (Gweler [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos))

\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_  
\_\_\_\_\_

Os nad deiliad arfaethedig y drwydded yw perchennog yr eiddo, rhaid i'r perchennog a deiliad arfaethedig y drwydded lofnodi'r caniatâd canlynol.

**1.10** Rwyf i, yn berchennog yr eiddo, drwy hyn yn rhoi fy nghaniatâd i'r person a enwir isod fod yn ddeiliad y drwydded.

Enw (printiwch): \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod: \_\_\_\_\_

**1.11** Rwy'n cydsynio i gael f'enwi'n ddeiliad arfaethedig y drwydded ar gyfer yr eiddo uchod.

Enw (printiwch): \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod: \_\_\_\_\_

**1.12** Atodwch lun pasbort o ddeiliad arfaethedig y drwydded, a dynnwyd yn y 12 mis diwethaf, yn y bwllch isod.



## RHAN 2 Pobl Addas a Phriodol

### (Deiliad Arfaethedig y Drwydded ac unrhyw Reolwr)

Cyn bod yr awdurdod lleol yn gallu rhoi trwydded, mae'n rhaid iddo benderfynu a yw deiliad arfaethedig y drwydded ac unrhyw reolwr ar y tŷ'n berson addas a phriodol.

At y diben hwn, mae'r materion canlynol yn berthnasol:

(a) Unrhyw golffarnau heb ddarfod sy'n gysylltiedig â:

- Thwyll neu anonestrwydd arall
- Trais neu gyffuriau
- Unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

(b) Manylion unrhyw gasgliad gan lys neu dribiwnlys o wahaniaethu anghyfreithlon ar ran deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded ar sail rhyw, lliw, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol neu anabled wrth gynnal unrhyw fusnes, neu mewn cysylltiad ag unrhyw fusnes.

(c) Manylion unrhyw achos o dorri un o ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad sy'n gysylltiedig â thai, iechyd cyhoeddus, iechyd yr amgylchedd neu gyfraith landlordiaid a thenantiaid ar ran deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded, a oedd wedi arwain at achosion sifil neu droseddol a dyfarniad yn erbyn deiliad neu reolwr y drwydded arfaethedig.

Sylwer y gall deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded fod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chroeswiriadau gyda chyrff rheoleiddio eraill, gan gynnwys Rhentu Doeth Cymru, at y diben hwn. Ystyrir bod llofnodi'r cais am drwydded HMO yn ganiatâd ar gyfer unrhyw wiriadau o'r fath.

**2.1** Os yw unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i ddeiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded, dylid rhoi'r manylion isod (sylwer bod darpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn berthnasol yn achos collfarnau sydd wedi 'dod i ben' – gweler nodyn arweiniol 4 am fwy o wybodaeth).

---

---

---

---

---

---

---

---

---

---

**2.2** Beth yw rhif cofrestru Rhentu Doeth Cymru ar gyfer perchennog yr eiddo? (Gweler nodyn arweiniol 8.)

**2.3** Beth yw rhif trwyddedu Rhentu Doeth Cymru ar gyfer rheolwr yr eiddo? (Gweler nodyn arweiniol 8.)

**2.4** A yw deiliad arfaethedig y drwydded wedi gwneud cais, neu a oes gofyn iddo wneud cais, am drwydded debyg ar gyfer eiddo mewn ardal awdurdod lleol arall? Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriadau'r eiddo.

---

---

---

---

**2.5** Rhowch gyfeiriadau'r holl eiddo arall yn ardal Abertawe y mae deiliad arfaethedig y drwydded wedi cael/yn bwriadu cael trwydded ar eu cyfer.

---

---

---

---

**2.6** A yw deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded yn berchen ar neu erioed wedi bod yn berchen ar eiddo y mae awdurdod lleol wedi gwrthod rhoi trwydded debyg ar ei gyfer neu ddirymu trwydded debyg? Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriadau'r eiddo.

---

---

---

---

**2.7** A yw deiliad neu reolwr arfaethedig y drwydded yn berchen ar neu erioed wedi bod yn berchen ar eiddo sydd wedi bod yn destun gorchymyn rheoli dros dro neu derfynol o dan Ddeddf Tai 2004? Nodwch enw'r awdurdod lleol a chyfeiriadau'r eiddo.

---

---

---

---

**2.8** A yw deiliad arfaethedig y drwydded neu'r asiant rheoli erioed wedi bod yn fethdalwr? Rhowch fanylion.

---

---

---

---



## 3.1 Nodwch y math o HMO y mae'r cais ar ei gyfer:

- Tŷ amlfeddiannaeth
- Fflat amlfeddiannaeth
- Tŷ sydd wedi'i addasu ac sy'n cynnwys fflatiau'n unig

## 3.2 Pa un o'r canlynol yw'r eiddo?

Tŷ ar wahân  Tŷ pâr  Tŷ teras  Tŷ pen teras

## 3.3 Beth yw oed yr eiddo?

Cyn 1919  1919 - 1945  1946 - 1964  1965 - 1980  Ar ôl 1980

## 3.4 Sawl llawr sydd i'r HMO?

(Dylech gynnwys isloriau ac ystafelloedd atig ond nid y selerau)

1  2  3  4  5  6  7  8  9  10  Arall  Nodwch .....

## 3.5 Nodwch nifer yr:

Ystafelloedd gwely	
Ystafelloedd byw	
Ystafelloedd ymolchi/Ystafelloedd cawod gyda thoiled a basn golchi dwylo	
Ystafelloedd ymolchi/Ystafelloedd cawod heb doiled na basn golchi dwylo	
Toiled ar wahân gyda basn golchi dwylo	
Sinciau gyda byrddau sychu	
Ceginau	

Os oes gan yr eiddo nifer o unedau gosod ar wahân, defnyddiwch y daflen Gwybodaeth Ychwanegol ar gefn y ffurflen hon er mwyn darparu'r manylion ar gyfer pob uned osod unigol.

## 3.6 Faint o unedau gosod ar wahân sydd yn yr eiddo? (Gweler nodyn arweiniol 7).

**3.7** Beth yw uchafswm nifer y bobl a fydd yn defnyddio'r eiddo? (Mae nifer y bobl yn uniongyrchol berthnasol i ffi'r drwydded - gweler y daflen arweiniad)

**3.8** Beth yw uchafswm nifer yr aelwydydd a fydd yn defnyddio'r eiddo?  
(Gweler nodyn arweiniol 7)

**3.9** A yw'r perchennog, yr ymgeisydd, y rheolwr neu ddeiliad arfaethedig y drwydded yn byw yn yr eiddo? Ydy  Nac ydy  Enw:

**3.10** Rhowch fanylion unrhyw gyfarpar a gweithdrefnau rhagofalon tân a osodwyd. Dylai hyn gynnwys nifer a lleoliad larymau tân, arwyddion, blancedi tân, drysau tân a diffoddiaduron tân.

---

---

---

---

---

---

---

---

**3.11** Beth yw'r llwybrau dianc rhag tân?

---

---

---

---

**3.12** Pa hyfforddiant iechyd a diogelwch ydych chi'n ei gynnig i breswylwyr?

---

---

---

---

**3.13** A yw'r holl ddodrefn yn cydymffurfio â Rheoliadau Dodrefn a Deunyddiau Dodrefnu (Diogelwch Tân) 1988 (fel y'u diwygiwyd)?

Ydy  Nac ydy

**3.14** A oes gennych dystysgrif diogelwch nwy gyfredol ar gyfer unrhyw osodiadau nwy yn yr eiddo? Darparwch gopi gyda'ch cais.

Oes  Nac oes



Sylwer bod rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, a hynny'n fwriadol, at ddibenion cael trwydded yn drosedd. Mae'r awdurdod lleol yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth mewn perthynas ag unrhyw ddatganiadau a wnaed yn y cais hwn yn nes ymlaen. Os ydym wedi hyn yn darganfod rhywbeth sy'n berthnasol ac y dylech chi fod wedi'i ddatgelu, neu sydd wedi'i nodi'n anghywir, gall eich trwydded gael ei dirymu a gallwn gymryd mwy o gamau. Mae gweithredu HMO y dylid ei drwyddedu heb drwydded yn drosedd y gellir cael dirwy o hyd at £20,000 amdani. Yn ogystal, gellid rhoi gorchymyn ad-dalu rhent lle byddai gofyn i chi ad-dalu unrhyw renti a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod heb drwydded.

**Rwyf yn/rydym ni'n datgan fy mod/ein bod wedi cyflwyno hysbysiad o'r cais hwn i'r bobl ganlynol, sef yr unig bobl y mae gofyn iddynt wybod ein bod wedi cyflwyno'r cais hwn rwyf i/rydym ni'n ymwybodol ohonynt. (Gweler nodyn arweiniol 10)**


Enw (printiwch)	Cyfeiriad	Disgrifiad o fudd y person yn yr eiddo ar y cais	Dyddiad y Cyflwyno


Trwy gyflwyno'r ffurflen hon, rydych yn derbyn yr Hysbysiad o Brosesu Data y gellir ei ddarllen yn nodyn arweiniol 11 y ffurflen hon.

Rwyf i/Rydym ni'n datgan bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth/ein gwybodaeth. Rwyf i/Rydym ni'n deall fy mod/ein bod wedi troseddu os byddaf/byddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth i unrhyw awdurdod tai lleol mewn cysylltiad ag unrhyw un o'i swyddogaethau o dan unrhyw rannau o Ran 1 i 4 Deddf Tai 2004 sy'n ffug neu'n gamarweiniol ac rwyf i/rydym ni'n gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol neu rwyf i/rydym ni yn ddiotal o ran a yw'n ffug neu'n gamarweiniol.

Enw (printio):	Dyddiad:	Llofnod:
Enw (printio):	Dyddiad:	Llofnod:
Enw (printio):	Dyddiad:	Llofnod:
Enw (printio):	Dyddiad:	Llofnod:

**Darparwch gynllun o'r eiddo. Nid oes rhaid iddo fod i raddfa a gellir ei luniadu â llaw, ond dylai ddangos defnydd pob ystafell a phresenoldeb cyfarpar rhagofalon tân.**







# Tai Amfeddiannaeth

Nodiadau Arweiniol ar gyfer y Ffurflen Gais

## Nodiadau i'w darllen wrth gwblhau'r ffurflen gais

- (1) Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cwblhau'r ffurflen gais a sylwi ar y canlynol:
- (2) Os mai chi yw'r person sy'n llenwi'r ffurflen gais hon, yna chi yw'r **ymgeisydd**. Fel yr ymgeisydd, mae'n ofynnol i chi gwblhau pob rhan o'r ffurflen gais a llofnodi'r datganiad ar dudalen 9 y ffurflen, sy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth.
- (3) **Deiliad arfaethedig y drwydded** yw'r person y bydd ei enw ar y drwydded (os rhoddir hon). Rhaid mai deiliad arfaethedig y drwydded yw'r person mwyaf addas i ddal y drwydded ar gyfer yr eiddo. Mae'n debygol mai'r person hwn fydd y person sy'n derbyn y rhent ar gyfer yr eiddo. (sef yr incwm o'r eiddo).
  - Ni fydd holl adrannau'r ffurflen yn berthnasol i bob ymgeisydd. Rhowch Dd/B yn erbyn y rhai nad ydynt yn berthnasol i'ch cais.
  - Lle mae rhywbeth yn berthnasol, ond nid yw eto yn eich eiddo, nodwch eich bwriad o ran hyn.
  - Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon mai deiliad arfaethedig y drwydded yw'r person mwyaf addas i wneud hynny. Fel arfer, byddai'r awdurdod hwn yn disgwyl i'r person hwnnw fod naill ai'n berchennog ar yr eiddo neu'n rheolwr cymwys, a bydd angen cyfiawnhad lle nad yw hyn yn wir.
  - Bydd y **rheolwr** hefyd yn cael ei enwi ar y drwydded (os rhoddir hon). Ni all yr Awdurdod roi trwydded oni bai ei fod yn fodlon bod trefniadau rheoli digonol ar waith ar gyfer yr eiddo.
  - Os mai cwmni yn hytrach na pherson yw'r perchennog neu'r rheolwr arfaethedig, yna dylid darparu manylion llawn, gan gynnwys enw ysgrifennydd y cwmni a/neu

gyfarwyddwyr lle y bo'n berthnasol, cyfeiriad gohebu a'r swyddfa gofrestredig. Gellir rhoi hyn fel 'gwybodaeth ychwanegol' ar ddiwedd y ffurflen.

- (4) O ran datganiadau **Pobl Addas a Phriodol**, mae darpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012) yn berthnasol fel yr isod i'r rhai sy'n 18 oed neu'n hŷn ar ddyddiad y gollfarn.

Gwarediad	Cyfnod Adsefydlu
Rhwng 30 a 48 mis yn y carchar	7 mlynedd o ddiwedd y ddedfryd (gan gynnwys amser ar drwydded)
Rhwng 6 mis a 30 mis yn y carchar	4 blynedd o ddiwedd y ddedfryd (gan gynnwys amser ar drwydded)
6 mis neu lai yn y carchar	2 flynedd o ddiwedd y drwydded (gan gynnwys amser ar drwydded)
Gorchymyn Prawf	12 mis o ddyddiad y Gorchymyn
Gorchymyn Cymunedol	12 mis o ddyddiad y Gorchymyn*
Dirwy	Blwyddyn o ddyddiad y ddedfryd
Gorchymyn Rhyddhad Amodol	Y diwrnod olaf pan fo'r gorchymyn ar waith
lawndal	Ar ôl i'r iawndal gael ei dalu'n llawn
Rhyddhad Diamod	Dim cyfnod adsefydlu

\* Neu 2 flynedd o ddyddiad y ddedfryd os nad yw'r gorchymyn yn nodi'r dyddiad olaf pan fo ar waith.

(5) Bydd y cynllun y mae'n rhaid i chi ei gynnwys yn cynorthwyo swyddogion wrth brosesu eich cais. Gellir ei luniadu â llaw, ond rhaid iddo gynrychioli cynllun llawn yr eiddo yn gywir. Dylai hyn gynnwys pob drws ac allanfa, presenoldeb unrhyw ragofalon tân a dylai nodi defnydd pob ystafell.

(6) Mae tudalennau ychwanegol ar gael ar ddiwedd y ffurflen ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych am ei darparu, neu er mwyn parhau â'ch atebion y dylid eu cyfeirnodu'n unol â hynny.

## (7) Diffiniadau

At ddibenion y cais hwn, mae Deddf Tai 2004 yn darparu'r diffiniadau canlynol:

**Aelwyd sengl** - Ni ddylid ystyried bod pobl yn ffurfio aelwyd sengl oni bai fod pob un ohonynt yn aelodau o'r un teulu. At y diben hwn, mae person yn aelod o'r un teulu â pherson arall os yw:

- (a) ef a'r person arall yn briod neu'n byw gyda'i gilydd fel gŵr a gwraig (neu berthynas gyfwerth ar gyfer parau o'r un rhyw);
- (b) un ohonynt yn berthynas;
- (c) un ohonynt yn berthynas i un aelod o bâr ac mae'r llall yn berthynas i aelod arall y pâr.

**Uned Osod** - yw, er enghraifft, ystafell unigol mewn tŷ a rennir neu fflat hunangynhwysol.

(8) **Rhentu Doeth Cymru** yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer cofrestru landlordiaid a thrwyddedu asiantiaid a landlordiaid o dan Ran 1, Deddf Tai (Cymru) 2014, a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd 2015. Ewch i [www.rhentudoeth.llyw.cymru](http://www.rhentudoeth.llyw.cymru) i gael mwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru a gwneud cais am drwydded. Mae hon yn ffurflen ar wahân sy'n ychwanegol at drwyddedu HMO.

## (9) Ffioedd

Mae'r ffi a fydd yn daladwy ar gyfer y drwydded yn dibynnu ar uchafswm y preswylwyr sy'n byw yn yr eiddo. Mae manylion ar y daflen amgaeedig.

## (10) Datganiad

Rhaid i chi roi gwybod i rai pobl yn ysgrifenedig eich bod wedi cyflwyno'r cais hwn neu roi copi ohono iddynt. Y bobl hynny yw:

- Unrhyw gwmni sy'n darparu morgais i'r eiddo (e.e. banc, cymdeithas adeiladu neu gwmni ariannu sydd wedi rhoi morgais ar gyfer yr eiddo).
- Unrhyw berchennog yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad chi yw hwnnw) h.y. y rhydd-ddeiliad ac unrhyw brif brydleswr sy'n hysbys i chi.
- Unrhyw berson arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hir o'r eiddo neu unrhyw ran ohono (gan gynnwys fflat) sy'n hysbys i chi, ac eithrio tenant statudol neu denant arall y mae ei brydles neu ei denantiaeth yn llai na thair blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).
- Deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi yw hwnnw).
- Yr asiant rheoli arfaethedig (os oes un) (os nad chi yw hwnnw).
- Unrhyw berson sydd wedi cytuno y bydd yn rhwym i unrhyw amodau mewn trwydded os y'i rhoddir.

Rhaid i chi ddweud wrth bob un o'r bobl hyn:

- Eich enw, eich cyfeiriad, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost neu rif ffacs (os oes un).
- Enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost neu rif ffacs (os oes un) deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi fydd hwnnw).
- Bod hwn yn gais am Drwydded HMO o dan Ran 2 Deddf Tai 2004.
- Cyfeiriad yr eiddo y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- Enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol y caiff y cais ei gyflwyno iddo.
- Dyddiad cyflwyno'r cais.

**Rhaid i chi lofnodi'r datganiad ar dudalen 9 i gadarnhau eich bod wedi gwneud hyn.**

## (11) Hysbysiad o Brosesu Data

Er mwyn bodloni rhwymedigaethau Rhan 2 Deddf Tai 2004, rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu a chynnal cofrestr o'r holl drwyddedau a roddir ganddynt. Rhaid i'r gofrestr gynnwys y manylion a ragnodwyd ac mae'n rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd. Rhaid darparu copïau o'r gofrestr, neu ddarnau ohoni, i berson sy'n gofyn amdano; gall hyn fod yn amodol ar dalu ffi resymol.

Cyhoeddir fersiwn gryno o'r gofrestr (heb enw na chyfeiriad deiliad neu reolwr y drwydded) ar wefan yr awdurdod lleol [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos)

Mae'n ofynnol i chi roi gwybodaeth sy'n gywir ac yn gyfoes. Ni chedwir yr wybodaeth hon am fwy o amser na sy'n angenrheidiol. Mae mwy o wybodaeth am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth <https://ico.org.uk/>

## (12) Rhestr wirio

Sicrhewch eich bod wedi amgáu'r canlynol gyda'r cais hwn.

Ffi'r Drwydded

Tystysgrif Nwy

Llun o ddeiliad arfaethedig y drwydded

## (13) Ffi'r Drwydded a Chyflwyno eich Cais

Gweler y ddalen ar wahân ar gyfer strwythur y ffioedd.

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i 'Dinas a Sir Abertawe'.

Postiwch y cais, y ffi a'r atodiadau i'r:

**Tîm HMO  
Cyfarwyddiaeth Lleoedd  
Dinas a Sir Abertawe  
Canolfan Ddinesig  
Heol Ystumllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN**

Ffôn: (01792) 635600

Gallwch hefyd dalu a chyflwyno'ch cais yn bersonol yng Nghanolfan Gyswilt y cyngor yn y Ganolfan Ddinesig, lle gallwch dalu gydag arian parod, siec, cerdyn debyd neu gredyd.

## (14) Mwy o wybodaeth

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan, [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos)

## (15) Nodyn i Gloi

Mae'r darpariaethau trwyddedu sy'n ymwneud â HMO yn cynyddu ac yn ffurfioli'r rhwymedigaethau ar gyfer y bobl sy'n gyfrifol am eiddo o'r fath. Dylech gymryd amser i ddarllen y ffurflen gais cyn ei chwblhau ac ystyried sut bydd y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni.

Gallwch ddarllen Polisi Trwyddedu HMO Dinas a Sir Abertawe ar ein gwefan [www.abertawe.gov.uk/hmos](http://www.abertawe.gov.uk/hmos)

Yn y pen draw, y bobl a enwir fydd yn atebol am fodloni'r amodau a gynhwysir gydag unrhyw drwydded a roddir.

